❖ Tyrd i Lawr

Tyrd i lawr, O Arglwydd, a gwna dy enw'n hysbys i'th elynion:
tyrd i lawr, Arglwydd, a rho'r byd yn ei le;
tyrd i lawr a dangos dy hun i'r rhai sy'n dy wrthod;
tyrd i lawr a gwna i'r cenhedloedd grynu:
ond daethost i lawr, Arglwydd,
ac nid adnabuom di.
Tyrd i lawr, O Arglwydd, er mwyn i ni gael ein hachub:
tyrd i lawr, er mwyn i ni weld dy wyneb
yn llewyrchu arnom ac yn ein hadfer;
tyrd i lawr, ac yna ni thrown ni oddi wrthyt mwyach:
ond daethost i lawr, Arglwydd,
a chefnasom arnat.
Tyrd eto, O Arglwydd, i'n hadfer ni:
yn dy amser dy hun, tyrd eto
er mwyn galw dy bobl ynghyd
i gyflawni dy ewyllys dragwyddol
a dod â buddugoliaeth derfynol dy deyrnas sanctaidd i'r amlwg:
ond cydnabyddwn, Arglwydd,
fod angen i ni ein paratoi ein hunain
at y dydd mawr hwnnw.
Felly, tyrd eto, Arglwydd:
yn nhymor yr Adfent, tyrd i'n calonnau,
er mwyn i ni, fel tanwydd, gael ein tanio gan angerdd,
ac fel dŵr berwedig fyrlymu o lawenydd;
ac wrth i ni daer ddisgwyl dy ailddyfodiad,
na ad i ni gefnu arnat,
ond gad i ni gael ein hadfer,
a'th gyffesu di yn Arglwydd, Creawdwr,
a'n Tad cariadlon a maddeugar.

***o Gweddïo* 2002–03**